**PWYLLGOR SAFONAU**
**3 RHAGFYR 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Llun, 3 Rhagfyr 2018.

**YN BRESENNOL: Rob Dewey (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr:
Patrick Heesom, Paul Johnson ac Arnold Woolley

Aelodau cyfetholedig:
Jonathan Duggan-Keen, Phillipa Earlam, Edward Hughes, Julia Hughes a Ken Molyneux.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Swyddog Monitro, Dirprwy Swyddog Monitro a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**38. DATGAN CYSYLLTIADAU (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dim.

**39. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2018.

Materion yn Codi

Cofnod rhif 32: Y canllawiau diweddaraf ar y defnydd o’r cyfryngau cymdeithasol gan CLILC – cadarnhaodd y Dirprwy Swyddog Monitro bod y canllawiau wedi’u dosbarthu i Gynghorwyr Sir a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned.

Dywedodd y Cynghorydd Heesom y cafwyd adborth cadarnhaol ar y cyfarfod gan Gynor Cymuned Mostyn.

**PENDERFYNWYD:**

Y dylid cymeradwyo’r cofnodion fel cofnod cywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi.

**40. GOLLYNGIADAU**

Dennis a Jeannie Hutchinson, Cynghorwyr Tref Bwcle

Rhoddodd y Swyddog Monitro wybodaeth gefndirol ar gais am ollyngiad gan Gynghorydd Tref Bwcle, Dennis Hutchinson (a'i wraig), sydd ar hyn o bryd â chontract i ddarparu gwasanaethau yn y Sir. Fel rhan o adolygiad o lwybrau bysiau lleol, cytunodd y Cyngor Sir i gais gan Gyngor Tref Bwcle am amser ychwanegol er mwyn dod i gytundeb ar ymateb ffurfiol i’r ymgynghoriad, yn arbennig y gwasanaeth ‘Shopper Hopper’ a weithredwyd gan gwmni'r

Cynghorydd Hutchinson. Roedd y ddau Gynghorydd yn ceisio gollyngiad i fod yn bresennol, heb gymryd rhan na phleidleisio, pan gaiff y mater ei ystyried yng nghyfarfod nesaf Cyngor Tref Bwcle.

Cafwyd trafodaeth ynghylch caniatáu i Gynghorwyr gyda chysylltiad sy'n rhagfarnu gael yr un hawliau ag aelodau'r cyhoedd o ran cael aros yn yr ystafell i arsylwi cyfarfodydd, heb gael effaith ar onestrwydd y ddadl. Nodwyd hefyd bod Cyngor Tref Bwcle eisoes wedi elwa o gael estyniad i ddyddiad cau'r ymgynghoriad a'i bod yn bosibl nad yw contractwyr bysiau eraill yn ymwybodol o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn arbennig i drafod y testun hwn.

Cynigodd Julia Hughes i wrthod y gollyngiad, ac eiliwyd hyn gan Jonathan Duggan-Keen. O'i roi i bleidlais, cymeradwywyd hyn.

Gofynnodd y Cynghorydd Woolley i'w ymataliad o'r bleidlais gael ei gofnodi.

<u>Y Cynghorydd Veronica Gay</u>

Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor ystyried cais am ollyngiad gan y Cynghorydd Sir a Chynghorydd Tref Saltney, Veronica Gay, a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi'r agenda. Fel aelod o grŵp cefnogi Dementia a gwirfoddolwr mewn Caffi Cofio misol, roedd y Cynghorydd Gay yn ceisio gollyngiad i wneud sylwadau llafar ac ysgrifenedig ar faterion penodol sy'n effeithio'r grŵp a'r Caffi, heb gymryd rhan yn y bleidlais.

Eglurwyd er iddo gael ei ystyried yn gysylltiad personol, bod y Cynghorydd Gay yn ceisio gollyngiad fel rhagofal diogelwch i'w galluogi i siarad a rhoi ei henw i sylwadau ysgrifenedig.

Mynegwyd barn ar werth cyfraniad gwybodaeth Cynghorydd Gay at sylwadau perthnasol heb hawliau pleidleisio. Teimlai rhai Aelodau ei bod yn aneglur a yw hwn yn wasanaeth cyhoeddus neu beidio, ac y dylid codi'r mater â Chynghorau Tref a Chymuned mewn perthynas ag unigolion gyda sawl cysylltiad yn ceisio gollyngiad mewn amgylchiadau tebyg.

Cadarnhaodd Swyddogion delerau'r cais am ollyngiad gan gynnwys y cyfnodau amser a'r camau diogelu arferol. Cynigwyd ac eiliwyd hyn gan y Cadeirydd ac Edward Hughes. O'i roi i bleidlais, cymeradwywyd hyn. Roedd y penderfyniad yn berthnasol i'r Cynghorydd Gay yn ei rôl fel Cynghorydd Sir yn ogystal â Chynghorydd Tref.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Gwrthod y cais am ollyngiad gan Gynghorwyr Tref Bwcle, Dennis a Jeannie Hutchinson mewn perthynas â thrafod gwasanaethau bysiau lleol yng Nghyngor Tref Bwcle; a

(b) Bod Cynghorydd Sir y Fflint a Chynghorydd Tref Saltney, Veronica Gay, yn derbyn gollyngiad dan baragraffau (d) (e) (f) a (h) Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i roi sylwadau ar lafar ac yn ysgrifenedig i Gyngor Tref Saltney a Chyngor Sir y Fflint ar faterion yn

ymwneud â grŵp cymorth Dementia Saltney a'r Caffi Cofio misol. Bydd y Cynghorydd Gay yn gadael y cyfarfod ar ôl siarad, cyn trafodaeth a phleidlais ar y cais mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Ar gyfer cyfarfodydd preifat â swyddogion Cyngor Sir, mae gofyn i o leiaf un tyst fod yn bresennol, i sicrhau bod o leiaf tri unigolyn yn rhan o'r sgwrs, a bod y drafodaeth yn cael ei chofnodi. Mae'r ollyngiad i'w rhoi am 12 mis, gan ddod i ben ar 3 Rhagfyr 2019.

## 41. YMWELIADAU GAN AELODAU Â CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad i gytuno ar fecanwaith ar gyfer rhoi adborth i Gynghorau Tref a Chymuned ar ymweliadau a gaiff eu cynnal gan aelodau annibynnol o'r Pwyllgor, fel y trafodwyd yn y cyfarfod diwethaf.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried cyfres o argymhellion a ddrafftiwyd gan swyddogion i amlinellu'r dull gorau. Byddai darparu nodiadau ysgrifenedig o bob ymweliad i'r Swyddog Monitro yn ei alluogi i gynllunio agendâu yn seiliedig ar lwyth gwaith. Byddai'r argymhelliad i amgáu nodiadau ysgrifenedig gyda'r pecyn agenda cyhoeddus yn eu galluogi i gael eu hystyried gan y Pwyllgor cyn cyfarfodydd yn ogystal â'u defnyddio nhw fel adborth i Gynghorau Tref a Chymuned.

Mewn perthynas â rhaglen y dyfodol, awgrymwyd y gellid ailymweld â chynghorau mewn dwy flynedd i roi amser i ystyried yr adborth a chwblhau unrhyw newidiadau/hyfforddiant os teimlir bod angen. Gellid hefyd trefnu ymweliadau â chynghorau lle mae newidiadau sylweddol wedi bod i aelodaeth neu Glerc newydd. Fel arall, efallai y bydd Clercod yn dymuno gwneud cais am ymweliad, gyda rhybudd ymlaen llaw neu beidio.

Dywedodd y Swyddog Monitro os nad yw Aelodau yn dymuno i'w nodiadau ysgrifenedig gael eu cynnwys yn yr agenda, byddai'r rhain yn cael eu nodi fel papurau cefndirol a byddai angen i'r Pwyllgor gytuno ar yr adborth a roir i Gynghorau Tref/Cymuned ar bob achlysur. O ran dadansoddi tueddiadau, gellid darparu adroddiad unwaith neu ddwywaith y flwyddyn i roi crynodeb o'r prif faterion a nodwyd yn ystod y cyfnod hwnnw er gwybodaeth o ran anghenion yr hyfforddiant.

Er bod rhai Aelodau o blaid rhannu adroddiadau ysgrifenedig, teimlai eraill y dylai'r Pwyllgor gytuno ar yr adborth ac y byddai adroddiadau ar lafar yn rhoi cyfle i gadarnhau unrhyw feysydd o ansicrwydd cyn cwblhau'r adborth. Awgrymwyd y gellid cynnwys adran am wybodaeth y wefan ar y ffurf templed a ddefnyddir i ysgrifennu nodiadau am yr ymweliadau.

Cynigodd Julia Hughes ddiwygiad i Argymhelliad 2 yn yr adroddiad, sef bod nodiadau ysgrifenedig gael eu hanfon ymlaen i'r Swyddog Monitro a'u hadrodd ar lafar i Aelodau mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Safonau i roi cyfle i ddiwygio a chadarnhau os oes angen. Byddai'r crynodeb o'r adborth yn cael ei gynnwys yn rhan o'r cofnodion a byddai ar gael i'r Cynghorau Tref a Chymuned perthnasol. Eiliwyd hyn gan Mr. Ken Molyneux.

Cytunwyd hefyd y byddai adroddiadau yn cael eu hystyried yn nhrefn dyddiad yr ymweliadau oherwydd roedd Cynghorau Tref a Chymuned yn awyddus i dderbyn adborth cynnar.  Byddai hyn hefyd yn rhoi cyfle iddynt gadarnhau unrhyw faterion sydd wedi'u camddehongli o bosibl.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Diwygio nifer yr adroddiadau adborth o ymweliadau â Chynghorau Tref a Chymuned a gaiff eu hystyried ym mhob cyfarfod er mwyn sicrhau nad yw'r agendâu wedi'u gorlenwi, oni bai bod angen rhoi gwybod am faterion brys pan gaiff y rhain eu gosod ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf. Caiff yr adroddiadau eu hystyried mewn trefn gronolegol;

(b) Bod y nodiadau ysgrifenedig (gan ddefnyddio'r templed cytunedig) yn ffurfio papurau cefndirol i agendâu.  Bod adroddiadau ar lafar yn cael eu cyflwyno ym mhob cyfarfod i alluogi'r Pwyllgor i ddarganfod pa adborth i'w roi i Gynghorau Tref a Chymuned a ymwelwyd â hwy; a

(c) Bod Aelodau yn rhoi gwybod i'r Swyddog Monitro am ymweliad â Chyngor Tref a Chymuned ac yn anfon eu nodiadau ysgrifenedig ato, cyn gynted â phosibl yn dilyn ymweliad, at ddibenion cynllunio agenda'r Pwyllgor.

## 42. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol i'w hystyried.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

## 43. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 6.30pm a daeth i ben am 7.50pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**